


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Fawrth Gorffennaf 26ain 2022

Presennol :- Cyngorwyr : Gwilym Jones, Selwyn Griffiths, Keith Roberts, Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Aled Griffith

1. Ymddiheuriadau :- Cyngorwyr:- Dr Melfyn Edwards a Llinos Murphy

2. Llwybrau : Mynegwyd pryder ynglyn â chyflwr gwael y llwybr tu ôl i'r Premier Inn. Mae'r llwybr yma dan ofal Cyngor Gwynedd ac mae'n drueni ei weld mewn cyflwr mor wael gan fod tyfiant yn gorlifo iddo o'r ddwy ochr i'r ffens ac yn amharu ar fynediad cerddwyr a beicwyr.

Penderfynwyd :- ysgrifennu at Dewi Wyn Owen, C.G. i gwyno am y cyflwr ac i ofyn iddo drefnu clirio'r gordyfiant yn ôl cynnig Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Aled Griffith yn eilio.

3. Cae Bodawen

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael grant i gael 105 o goed cynhenid am ddim gan y Woodland's Trust i'w plannu ar ymylon gorllewinol y safle. Bydd yr rhain yn cyrraedd ym mis Tachwedd a phenderfynwyd cysylltu gydag Ysgol y Gorlan, Ysgol Eifion Wyn, Ysgol Borth y Gest , Meithrinfa Hen Ysgol a Jac y Do i ofyn iddynt os fuasent yn fodlon cymryd rhan yn y broses o blannu'r coed a monitro eu tyfiant wedyn.
- Mae cais wedi mynd i mewn am grant gan gyllid Perllanau Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol am 20 o goed ffrwythau i'w plannu ar ymylon gogleddol y safle. Ni dderbyniwyd cadarnhâd hyd yma.
- Bydd cais yn mynd i mewn yn yr wythnosau nesaf am grant gan Gronfa Partneriaeth Natur Gwynedd am garped o flodau gwyllt ar ymylon dwyreiniol y safle wrth y fynedfa.

4. Bryn Coffa – dim i'w adrodd

5. Cae Pawb

(Gadawodd Cyng Gwilym Jones y cyfarfod gan ddatgan Buddiant oherwydd ei fod yn denant yng Nghae Pawb.)

Derbyniwyd Adroddiad y Clerc o Archwiliad Cae Pawb Gorffennaf 5 2022 yn gywir a diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith yn gweinyddu rheolau Cae Pawb dros gyfnod prysur yn ddiweddar. Trafodwyd ambell i fater a gododd o'r Adroddiad a chytunwyd i ddilyn y rheolau i ymdrin â hwy.

Cyng Aled Griffith :- Cynnig ychwanegu "Os nad yw'r plot yn cael ei gynnal a'i gadw yn daclus bydd y Cyngor Tref yn trefnu ei dacluso ar gost o £25 yr awr. " i Reol 2.

Penderfynwyd :- gadael y sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd.

Cyng Aled Griffith :- Cynnig ychwanegu “Trefnir archwiliad o'r ardal dwy waith y flwyddyn - diwedd mis Mai a diwedd mis Tachwedd. Os nad yw'r plot wedi cael ei gynnal a'i gadw yn daclus bydd llythyr o rybudd yn cael ei yrru.” at y rheolau.

Penderfynwyd :- derbyn y cynnig i ychwanegu'r rheol a neilltuo anfon allan llythyrau rhybudd i'r 2 gyfnod yn dilyn y 2 archwiliad yma.
(Dychwelodd Cyng Gwilym Jones i'r cyfarfod.)

6. Llochesi Bws

Holwyd os oedd y Clerc wedi derbyn ateb gan Gyngor Gwynedd yn dilyn holi ar ôl y Cyfarfod Llawn diwethaf pwy oedd yn gyfrifol am lochesi bws Porthmadog. Darllenodd y Clerc ymateb Rhian Wyn Williams C.G. (bydd yng ngohebiaeth cyfarfod mis Medi) oedd yn nodi fod “ **holl** lochesi bws wedi cael eu trosglwyddo i berchen y Cyngor Tref/Cymuned flynyddoedd yn ôl”. Cafwyd sawl cwestiwn yn dilyn derbyn y wybodaeth yma ynglyn ag oblygiadau hyn i'r Cyngor Tref :-

- Beth yw eu gwerth?
- A ddylid eu ychwanegu at Restr Asedau'r Cyngor Tref?
- Ydi Yswiriant y Cyngor Tref yn ddigonol ar eu cyfer?
- Oes angen trefnu cytundeb gyda chwmni i lanhau a chynnal a chadw'r llochesi?

Penderfynwyd :- y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau gyda chynghorau eraill ac yn ceisio cael atebion i'r cwestiynau uchod erbyn cyfarfod mis Medi.

7. Cerflun Mr. Maddocks - dim i'w adrodd

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30.

Marian Roberts 27.7.2022